



I:

Awdurdodau Lleol Cymru  
(At sylw Swyddogion Cyllid Myfyrwyr)

Ebrill 2012

Annwyl Gyfaill

### **CYMORTH I FYFYRWYR ADDYSG UWCH YN 2012/13:**

#### **Cyflwyno'r Grant Ffioedd Newydd (Rheoliad 20) yn ystod Blwyddyn Academaidd 2012/13**

Fel y gŵyr Awdurdodau Lleol eisoes, mae cyflwyno'r grant ffioedd newydd i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn golygu bod mwy o bosibilrwydd y ceir achosion o dwyll (gweler hefyd 'Preventing Fraud: Audit Guidance 2011/12').

Mae angen rhoi sylw arbennig i bedwar maes (yn ogystal â'r drefn gwirio 10%):

- a) preswyliaeth gyffredin
- b) hunaniaeth
- c) incwm aelwydydd
- d) gwahanu dyletswyddau.

#### **a) preswyliaeth gyffredin**

Fel arfer, mae'r rheolau ar 'breswyliaeth gyffredin' i'w cael yn '*Assessing Eligibility Guidance 2012/13*'. Fodd bynnag, ceir crynodeb isod o gwestiynau enghreifftiol a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn SFWIN 02/07, ynglŷn â phreswyliaeth myfyrwyr:

**Un o'r prif ystyriaethau fydd y rheswm dros symud i Gymru. Sylwer, os yw unigolyn yn symud yn unswydd i gael addysg, neu os dyna'r prif reswm dros symud, ni fydd hawl gan yr ymgeisydd i gael cefnogaeth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

Trafodir pob achos yn ôl ei rinweddau.

O ganlyniad, er mwyn datrys y mater o breswyliaeth gyffredin, bydd amryw o faterion yn berthnasol:



- (1) Beth yw diben y symud?
- (2) Os honnir ei fod at ddibenion ar wahân i ddibenion addysg, pa dystiolaeth a geir i gefnogi hynny?
- (3) Os yw ymgeisydd yn rhentu/prynu eiddo yng Nghymru cyn i'r flwyddyn academaidd gychwyn, oes yna dystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi preswyllo yn yr eiddo hwnnw yn ystod y cyfnod hwnnw?
- (4) Os yw ymgeisydd yn honni ei fod wedi symud er mwyn gweithio yng Nghymru, pa dystiolaeth a geir i gefnogi hynny ac a ydy'r gwaith hwnnw yn waith dros dro/parhaol, amser llawn/rhan-amser?
- (5) Os oes asesiad o incwm wedi'i gynnal ar incwm yr aelwyd, ymhle mae'r aelwyd? A ydy'r aelwyd wedi'i leoli yn rhywle ar wahân i le y mae'r ymgeisydd yn honni ei fod yn preswyllo fel arfer?
- (6) Am faint o amser cyn i'r tymor academaidd gychwyn y mae'r ymgeisydd wedi preswyllo yng Nghymru
- (7) Os yw ymgeisydd yn honni ei fod wedi symud fel rhan o drefniadau symud teulu'r myfyriwr, oes yna dystiolaeth o hynny?

#### b) hunaniaeth

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno'r dogfennau gwreiddiol a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd modd derbyn copi ardystiedig, â'r copi hwnnw wedi ei wirio gan berson proffesiynol o drydydd parti.

#### c) incwm aelwydydd

Fel a grynhoir yn y Canllawiau Archwilio, dyma fydd y gofynion:

- gwirio'r ffurflen P60 gyda slipiau cyflog a datganiadau banc ategol
- cynnal gwiriadau ar "resymoldeb" yr wybodaeth ariannol a ddarperir gan y rheini sydd â statws hunangyflogedig, pan fo'r incwm sydd wedi'i ddatgan yn agosáu at lefelau budd-daliadau DWP neu'n is na hynny;
- cynnal gwiriadau i bennu beth yw cyfansoddiad yr aelwyd, yn arbennig pan geir ceisiadau oddi wrth deuluoedd un rhiant;
- gwirio hawl myfyriwr i gael budd-daliadau pan fyddant yn gwneud cais am ail fenthyciad neu fenthyciad arall.

#### ch) gwahanu dyletswyddau

Cyfeiriwch at 'Separating duties – recommended approach' yn y Canllawiau Archwilio.

